

## Cenawon bele'r coed yn cael eu geni yn y gwyllt yng Nghymru

Mae'r newyddion wedi cael eu cyhoeddi'n swyddogol - gannwyd cenawon bele'r coed yng Nghymru. Adnabyddir y bele fel ail anifail cigysol prinnaf Prydain, ar ôl y gath wyllt, sy'n golygu fod y genedigaethau hyn yn nodi carreg filltir bwysig yng ngwaith cadwraeth y mamal brodorol hwn.

Mae o leiaf tri o'r deg bele benywaidd a gludwyd i Gymru o'r Alban yr hydref diwethaf gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent wedi rhoi genedigaeth. Fe osododd staff o 'Prosiect Adfer Bele'r Coed' yr Ymddiriedolaeth gamerâu ar nifer o safleoedd lle roeddent yn credu fod bele'r coed benywaidd ar fin rhoi genedigaeth. Mae ymchwil pellach wedi cadarnhau fod o leiaf bum cenau wedi cael eu geni.

"Rwyf wrth fy modd. Rydyn ni wedi bod yn aros yn eiddgar am fisoedd i weld a fydden nhw'n bridio'n llwyddiannus," meddai Natalie Buttriss y Prif Swyddog Gweithredol yr Ymddiriedolaeth.

Mae Prosiect Adfer Bele'r Coed yn anelu at adfer poblogaeth hyfyw o'r rhywogaeth i Gymru a Lloegr. Prif bartneriaid y prosiect yw People's Trust for Endangered Species (PTES), Sw Caer a Coed Cadw (Woodland Trust), gyda chymorth gan Wildlife Vets International a Phrifysgol Exeter. "Mae PTES wrth ei fodd fod y cenawon hyn wedi cael eu geni i'r bele sydd wedi cael eu trawsleoli. Mae hwn yn gam pwysig o ran sicrhau llwyddiant y prosiect hwn," meddai Nida Al-Fulaij, Rheolwr Grantiau PTES.

"Mae hyn yn newyddion mor anhygoel, ac yn gwneud yr holl waith caled gan dîm Ymddiriedolaeth Vincent a phartneriaid gwerth chweil," meddai Sarah Bird, Swyddog Bioamrywiaeth â Sw Caer.

Ychwanegodd Mike Townsend o Coed Cadw: "Mae'r bele'r coed nid yn unig rywogaeth coetir eiconig. Mae e hefyd yn elfen allweddol o'r ecosystem coetir sydd ar goll. Mae'r prosiect adfer hwn yn dangos pwysigrwydd sicrhau fod cynefinoedd cysylltiedig da i fywyd gwyllt yn bodoli ar draws ardaloedd eang, fel y gall y creadur hardd a phrin hwn ffynnu, a gobeithio lledaenu'n ehangach ar draws y wlad".

Yn ystod hydref 2015, cludwyd ugain bele'r coed o dir Comisiwn Coedwigaeth yr Alban i Gymru, lle roeddent ar fin diflannu yn gyfan gwbl, a hynny o dan drwydded o Dreftadaeth Naturiol yr Alban. Rhyddhawyd yr anifeiliaid mewn coetir sy'n eiddo i Gyfoeth Naturiol Naturiol Cymru. Prosiect peilot yw hwn, ac mae'r anifeiliaid wedi cael eu dilyn yn ddyddiol trwy system radio gan staff a gwirfoddolwyr lleol, i

fonitro eu symudiadau a'u hymddygiad. Pan newidiodd ymddygiad rhai o'r belad benywaidd, roedd hynny'n arwydd y gallen nhw fod ar fin rhoi genedigaeth.

Fe gaiff ugain bele ychwanegol eu trawsleoli o'r Alban yn yr hydref ac fe ddylai hyn arwain at boblogaeth hunangynhaliol a fydd, dros gyfnod o amser, yn lledaenu i goedwigoedd eraill yng Nghymru a dros y ffin yn Lloegr. Heb y cymorth hwn, mae'n debygol y byddai'r mamal brodorol yma wedi diflannu o dirwedd Cymru.

"Dwi wrth fy modd i glywed y newyddion hyn - dwi'n breuddwydio am y diwrnod pan allaf gerdded trwy goetiroedd y Canolbarth a gweld bele'r coed yn y gwyllt," meddai lolo Williams, y naturiaethwr a chyflwynydd teledu.

MAJOR PARTNERS:



KEY SUPPORTERS:

